## YR ATODLEN

Rheoliad 13

**1.** Cynhelir cyfarfod cyntaf Cyngor a sefydlwyd o dan adran 20A(2)(b) o'r Ddeddf ar y dyddiad ac mewn lle y gall y Cynulliad a fydd yn gyfrifol am alw'r cyfarfod eu pennu.

**2.** Rhaid cynnal cyfarfod o'r Cyngor o leiaf unwaith ym mhob cyfnod o dri mis a rhaid i'r cyfarfodydd fod yn agored i'r cyhoedd.

**3.**—(1) Ar ôl y cyfarfod cyntaf, caiff y cadeirydd alw cyfarfod o'r Cyngor unrhyw bryd.

(2) Os cyflwynir cais am gynnal cyfarfod, a hwnnw wedi'i lofnodi gan draean o leiaf o gyfanswm yr aelodau, i'r cadeirydd, a naill ai —

(a) bod y cadeirydd yn gwrthod galw cyfarfod; neu

(b) nad yw'r cadeirydd yn galw cyfarfod o fewn deg diwrnod i dderbyn y cais, a hynny heb wrthod galw cyfarfod,

caiff yr aelodau hynny alw cyfarfod ar eu hunion.

(3) Cyn pob cyfarfod o Gyngor, rhaid danfon hysbysiad o'r cyfarfod—

(a) sy'n nodi'r busnes y cynigir ei drin yno; a

(b) a lofnodwyd gan y Prif Swyddog neu gan un o swyddogion y Cyngor a awdurdodwyd gan y Prif Swyddog i arwyddo ar ei ran,

i bob aelod, neu ei anfon trwy'r post i'w breswylfa arferol neu ei gyfeiriad busnes arferol, a hynny o leiaf saith diwrnod cyfan cyn dyddiad y cyfarfod.

(4) Ni fydd methu â chyflwyno hysbysiad i unrhyw aelod yn effeithio ar ddilysrwydd cyfarfod.

(5) Yn achos cyfarfod a gaiff ei alw gan aelodau yn hytrach na'r cadeirydd, rhaid i'r aelodau hynny lofnodi'r hysbysiad ac yn y cyfarfod rhaid peidio â thrin unrhyw fusnes heblaw'r busnes a bennir yn yr hysbysiad.

**4.**—(1) Mewn unrhyw gyfarfod o Gyngor rhaid i'r cadeirydd lywyddu, os yw'n bresennol.

(2) Os yw'r cadeirydd yn absennol o'r cyfarfod rhaid i is-gadeirydd lywyddu os yw'n bresennol.

(3) Os yw'r cadeirydd a'r is-gadeirydd yn absennol, llywyddir gan aelod y bydd yr aelodau sy'n bresennol yn ei ddewis.

**5.** Penderfynir ar bob cwestiwn mewn cyfarfod gan fwyafrif pleidleisiau yr aelodau sy'n bresennol ac sy'n pleidleisio ar y cwestiwn ac, yn achos pleidlais gytbwys, bydd gan y person sy'n llywyddu ail bleidlais a honno'r bleidlais fwrw.

**6.** Rhaid peidio â thrin unrhyw fusnes mewn cyfarfod onid oes traean o'r aelodau o leiaf yn bresennol (ac eithrio llefydd gwag ac aelodau cyfetholedig).

**7.** Rhaid llunio cofnodion a'u cyflwyno er mwyn cytuno arnynt yng nghyfarfod nesaf y Cyngor, a rhaid i'r person sy'n llywyddu yno eu llofnodi.

**8.** Rhaid cofnodi enwau aelodau sy'n bresennol mewn cyfarfod yng nghofnodion y cyfarfod.

**9.** Ym mharagraff 3 o'r Atodlen hon mae "cadeirydd" yn cynnwys is-gadeirydd sy'n gweithredu fel cadeirydd.